

---

## Galluedd strategol ar gyfer arloesedd technolegol - T849

---

*Patrwm cyflwyno*

*O fis Mai i fis Hydref*

*O fis Tachwedd i fis Ebrill*

### *Disgrifiad o'r modiwl*

Ar gyfer llawer o sefydliadau, mae'r angen am arloesedd technolegol parhaus wedi dod yn anghenraid strategol. Hyd yn oed mewn sectorau sy'n sefydlog yn draddodiadol, anaml y mae'r opsiwn i gynnal y sefyllfa sydd ohoni yn ddichonadwy. Mae hyn yn creu heriau ar gyfer y ffordd y mae sefydliadau yn caffael ac yn rheoli'r adnoddau a'r galluedd sy'n angenrheidiol ar gyfer dulliau arloesi effeithiol, ac yn creu a chynnal cyd-destunau sy'n cefnogi camau gweithredu strategol. Mae'r modiwl ar-lein hwn yn defnyddio deunyddiau o safbwynt sefydliadau sy'n seiliedig ar adnoddau, a rheolaeth strategol a rheoli arloesedd yn fwy cyffredinol, er mwyn creu dull ymarferol, amlhaenog o ddatblygu a rheoli arloesedd technolegol.

Mae'r modiwl yn debygol o fod yn gymwys i unrhyw un sy'n rhan o'r broses o ddatblygu a rheoli arloesedd technolegol neu sydd â diddordeb ynddo ar draws amrywiaeth eang o gyd-destunau a sectorau mor eang ac amrywiol â'r canlynol: Technoleg Gwybodaeth/Systemau Gwybodaeth, telathrebu, cyfrifiadura, peirianeg, gweithgynhyrchu, cludiant a logisteg, manwerthu, cynhyrchu a chyflenwi ynni, amddiffyn a diogelwch, rheoli a gweinyddu, a gwasanaethau o bob math gan gynnwys iechyd, lles a hamdden. Ym mhob un o'r meysydd uchod, a mwy, mae prif themâu'r modiwl hwn – pwysigrwydd cynllunio'n strategol a rheoli amrywiaeth o adnoddau a galluedd sefydliadol er mwyn sicrhau arloesedd technolegol – yn ganolog i weithredu sefydliadau o bob maint ac o bob math yn effeithiol ac yn llwyddiannus.

Gellir dod o hyd i ddisgrifiad llawn y modiwl hwn ar wefan Y Brifysgol Agored.

### *Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, mae'n hanfodol eich bod yn meddu ar y canlynol:

- y wybodaeth ddiweddaraf am dechnoleg a rheoli arloesedd wedi'i hategu gan radd ôl-raddedig neu gymhwyster cyfatebol.
- profiad o reoli arloesedd technolegol yn y sector cyhoeddus a/neu breifat.
- ymwybyddiaeth feirniadol o'r galluedd strategol sy'n angenrheidiol ar gyfer arloesedd technolegol mewn lleoliadau/cyd-destunau sefydliadol, sectorol neu ddiwydiannol.
- y gallu i diwtora myfyrwyr o gefndiroedd amrywiol yn effeithiol ar lefel meistr yn y maes pwnc hwn.
- Tystiolaeth o'r gallu i weithio i derfynau amser byr ac ymateb yn brydlon wrth gynnig cyngor, adborth a chefnogaeth i fyfyrwyr.

Byddai'n ddymunol i chi feddu ar y canlynol:

- tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol cyson a diweddar ym maes technoleg a/neu reoli arloesedd.
- cymhwyster dysgu ar lefel AU neu wedi derbyn cydnabyddiaeth broffesiynol gan yr Academi Addysg Uwch.
- profiad blaenorol a'r gallu amlwg i gwblhau dyletswyddau darlithydd cyswllt Y Brifysgol Agored yn effeithiol ar lefel meistr ar gyfer rheoli technolegol neu fodiwl cysylltiedig.
- ymchwil ddiweddar ym maes rheoli technoleg a/neu strategaeth arloesedd.
- bod yn rhan o fodiwl neu ddyluniad/cynhyrchiad asesu ym maes rheoli technolegol
- profiad o weithio gyda cheisiadau ar-lein ac adnoddau i gefnogi dysgu o bell.

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	5
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	7